## Cylch bywyd eithriadol

Mae gan chwilod olew un o'r cylchoedd bywyd mwyaf eithriadol o blith unrhyw bryfed ym Mhrydain - maen nhw'n barasitiaid nythod gwenyn turio unig. Bydd y chwilen olew fenywaidd yn tyllu nythod yn y ddaear cyn dodwy cannoedd o wyau ynddynt. Unwaith iddynt ddeor, bydd y larfa bywiog, sy'n debyg i leuen, yn dringo i fyny i'r blodau ac aros yno am wenynen addas. Mae eu traed bachog yn eu galluogi i gydio'n dynn yn y gwenyn diarwybod sy'n casglu paill ar gyfer ei nyth ei hun. Unwaith iddyn nhw gyrraedd nyth y gwenyn, bydd y larfa'n dringo oddi arno cyn mynd ati i fwyta wyau'r gwenyn a'i storfa o baill a neithdar. Bydd y larfa'n datblygu yn nyth y gwenyn tan iddo ymddangos ar ffurf chwilen olew yn barod i baru a chychwyn y cylch cyfan unwaith eto.

## Chwilio am chwilod olew

Mae chwilod olew yn bryfed amlwg, carismatig y dewch ar eu traws yn aml pan fyddwch yn cerdded a mwynhau cefn gwlad. Mae eu harfer o chwilio am dir noethlwm ble y gallant dyllu eu nythod yn y ddaear yn golygu y byddwch yn eu gweld yn aml ar lwybrau troed. Yr amser gorau o'r flwyddyn i chwilio am chwilod olew yw mis Mawrth i fis Gorffennaf.

## Gwarchod chwilod olew

Mae chwilod olew yn rhywogaeth â blaenoriaeth ar gyfer gwaith cadwraethol yng Nghymru - sy'n golygu bod angen gwneud gwaith ar frys er mwyn eu gwarchod nhw a'u cynefinoedd. Mae gan chwilod olew berthynas agos gyda gwenyn unig ac felly maent yn ddibynnol ar iechyd ac amrywiaeth gwenyn gwyllt. Y cynefin delfrydol ar gyfer chwilod olew yw glaswelltir sy'n llawn blodau gwyllt a rhostir - dau fath o gynefin sydd wedi eu colli o ardaloedd eang o gefn gwlad. Trwy anfon eich cofnodion chwilod olew atom byddwch yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o warchod y pryfed ysblennydd yma.

## Sut i gymryd rhan

**Anfonwch eich cofnodion a'ch lluniau chwilod olew atom trwy wefan Buglife.**

**www.buglife.org.uk/oil-beetle-survey-cymru**

**Buglife – The Invertebrate Conservation Trust, Bug House, Ham Lane**
**Orton Waterville**
**Peterborough, PE2 5UU**

**@buzz_dont_tweet**

**Find us on Facebook**

**Buglife - The Invertebrate Conservation Trust**
Elusen gofrestredig rhif **1092293**
Elusen gofrestredig Yr Alban rhif **SC040004**
Rhif cwmni **4132695**
Yr holl luniau © **John Walters** ar wahân i'r Chwilen Olew Ddu yn ei nyth © **D. & M. Nesbit** a Bachgen a Chwilen © **Richard Clarke**

Dylunio **www.johnwalters.co.uk** **2017**



Chwilen olew ddu yn tyllu ei nyth.



Larfa chwilen olew borffor (2 mm o hyd) ar flodyn llygad Ebrill.



Larfa chwilen olew ddu (1.5 mm o hyd) ar flodyn clustog Fair.



Larfa chwilen olew borffor yn cael ei gario ar gefn gwenynen durio unig.

Llun y clawr: Chwilen Olew Borffor

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Ymunwch â'r helfa am chwilod olew anhygoel yng Nghymru



## Rydym yn chwilio am y chwilod rhyfeddol yma sydd dan fygythiad, ac rydym angen eich help yng Nghymru ...


buglife Cymru

**Mae chwilod olew yn bryfed anhygoel, ond maent dan fygythiad. Credir bod tair o chwilod olew brodorol y DU yn ddiflanedig, ac mae'r pum rhywogaeth sydd ar ôl wedi dioddef dirywiad difrifol oherwydd newidiadau yn y ffordd y byddwn yn rheoli cefn gwlad.**


## Adnabod chwilod olew

Ceir tair rhywogaeth o chwilod olew yma yng Nghymru. Mae'r **chwilen olew Borffor** a'r **chwilen olew Ddu** yn niferus a gallant fod yn gymharol gyffredin mewn rhai ardaloedd lleol tra bo'r **chwilen olew Arw** yn brin ac wedi ei gweld ar ddim ond nifer bychan o safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru. Mewn rhannau eraill o Brydain, ceir hyd i'r **chwilen olew Ganoldirol** a'r **chwilen olew Gwddf Byr**, ond maent yn brin. Mae'n bosibl bod y rhywogaethau hyn yn bresennol yng Nghymru, ond rydyn ni angen i chi ein helpu i ddod o hyd iddynt!

Gellir adnabod chwilod olew yn y maes trwy ddefnyddio'r canllaw hwn. Trwy astudio'r diagram chwilod yma cyn ichi gychwyn gallwch ymgyfarwyddo ag enwau gwahanol rannau o gorff y chwilen a'i nodweddion adnabod allweddol. Cofiwch dynnu lluniau o'r chwilod olew y byddwch yn eu gweld a'u hanfon i mewn gyda'ch cofnodion.



Hyd (mm)





Chwilen olew

## Gochelwch rhag twyllwyr!

Mae chwilod olew yn neilltuol ond weithiau gellir eu camgymryd am chwilod eraill tebyg. Mae gan chwilod olew **gloradenydd sy'n gorgyffwrdd** sydd, fel arfer, yn fyrrach na'u abdomen. Mae gan bob un o'r chwilod isod gloradenydd sydd ddim yn gorgyffwrdd.



Chwilen trwyn gwaedlyd
*Timarcha tenebricosa*



Chwilen y Llawr Borffor
*Carabus violaceus*



Chwilen y dail
*Galeruca tanaceti*




Chwilen Ceffyl y Cythraul
*Ocypus olens*

## Chwilen olew Borffor

*Meloe violaceus*

Mae ei **thoracs bron yn sgwâr**.
Mae **crych yn antenau** y gwryw.
Mae crych bychan iawn yn antenau'r fenyw.
Mae'n lliw du gydag adlewyrchiad porffor-las neu'n gwbl ddu. Mae'n debyg iawn i'r Chwilen olew Ddu ond mae ganddi **ymyl isaf fylchog i'r thoracs gydag ardal bantiog ger y gwaelod**. Mae ganddi **ddant miniog amlwg wrth waelod** y thoracs.







Maint llawn – hyd at 30mm o hyd


Fe'i gwelir o fis Mawrth i fis Mehefin mewn dolydd a choetiroedd mewn amrywiol safleoedd ar draws Cymru.



Chwilen olew Borffor



Chwilen olew Borffor





Chwilen olew Ddu

## Chwilen olew Ddu

*Meloe proscarabaeus*

Mae ei **thoracs bron yn sgwâr**.
Mae **crych yn antenau** y gwryw.
Mae crych bychan iawn yn antenau'r fenyw. Mae'n lliw du gydag adlewyrchiad porffor-las neu'n gwbl ddu. Mae'n debyg iawn i'r Chwilen olew Borffor ond mae ganddi **ymyl bron yn syth i'r thoracs** gyda **dant crwn bychan iawn ger y gwaelod**. Nid oes ardal bantiog ger gwaelod y thoracs.



Maint llawn – hyd at 30 mm o hyd

Fe'i gwelir o fis Chwefror i fis Mehefin mewn glaswelltir arfordirol yn bennaf. Mae poblogaethau mwyaf Cymru i'w cael ar Benrhyn Gŵyr ac yn Sir Benfro.




Chwilen olew Ddu

## Chwilen olew Arw

*Meloe rugosus*


Mae ei **thoracs yn siâp hirsgwar** sy'n lletach na'i hyd, gyda **rhigol gul amlwg yn y canol**. Mae'r **antenau'n syth**. Lliw **du pŵl** gydag arwyneb mwy garw.






Maint llawn – hyd at 19 mm o hyd

Prin iawn. Nosol ar y cyfan. Fe'i gwelir o fis Medi i fis Ebrill mewn glaswelltir ar briddoedd sialc, calchfaen a thywodlyd. Gwyddom, ar hyn o bryd, ei bod i'w chael ar ychydig o safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru ond mae'n bosibl nad yw wedi cael ei gweld.



Chwilen olew Arw



Chwilen olew Ganoldirol




Chwilen olew Arw

## Chwilen olew Ganoldirol

*Meloe mediterraneus*

Tebyg iawn i'r Chwilen olew Arw.
Mae ei **thoracs yn siâp hirsgwar** sy'n lletach na'i hyd **heb rigol amlwg** yn rhedeg i lawr y canol.
Mae'r antenau'n syth. Lliw **du pŵl** gydag arwyneb garw.






Nid yw hon i'w gweld yng Nghymru ar hyn o bryd ond yn ddiweddar fe'i hail-ganfuwyd yn Nyfnaint a Dwyrain Sussex, ac mae'n bosibl y byddwn yn ei gweld yma. Nosol ar y cyfan. Fe'i gwelir ar laswelltir arfordirol, o fis Medi i fis Ebrill.

Maint llawn – hyd at 36 mm o hyd (gan amlaf, hyd at 20mm ym Mhrydain)





Chwilen olew Ganoldirol

## Chwilen olew Gwddf Byr

*Meloe brevicollis*

Mae ei **thoracs yn siâp hirsgwar** sy'n lletach na'i hyd. Mae'r antenau'n **fyr, syth** ac ychydig yn fwy trwchus ar y blaen. Lliw **glasddu, sgleiniog**.



Maint llawn – hyd at 24 mm o hyd

Nid yw hon i'w gweld yng Nghymru ar hyn o bryd ond mae wedi ei chanfod yng ngorllewin Yr Alban, de-ddwyrain Iwerddon a de Dyfnaint, felly mae'n bosibl y byddwn yn ei gweld yma. Fe'i gwelir ar laswelltir arfordirol, twyni a rhostiroedd o fis Mawrth i fis Mehefin.



Chwilen olew Gwddf Byr